# Y DATGANIAD CWRICWLWM GWAITH IEUENCTID AR GYFER CYMRU

2007

Addysgiadol

Mynegiannol

Cyfranogol

Grymusol

Y GYNHADLEDD SEFYDLOG AR WAITH IEUENCTID
YNG NGHYMRU

1. Y Datganiad Cwricwlwm
2. Cyd-destun y Polisi
3. Darparu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru
4. Dibenion ac Egwyddorion Gwaith Ieuenctid
5. Mesur Cynnydd ac Asesu Canlyniadau
6. Esblygiad y Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru

# CYNNWYS

**Bwriedir i'r Datganiad hwn WNEUD y canlynol:**

- **pennu prif ddibenion gwaith ieuenctid yng Nghymru;**
- **hysbysu rhai o'r tu allan i'r gwasanaeth am y dibenion hyn;**
- **darparu dealltwriaeth gyffredin o'r dibenion hyn;**
- **darparu fframwaith i ddatblygu arfer a phennu blaenoriaethau;**
- **creu modd i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r dibenion hyn.**

**NI fwriedir i'r Datganiad hwn wneud y canlynol:**

- **arwain at un cwricwlwm gorfodol ac anhyblyg a fyddai'n atal amrywiaeth neu gyfyngu ar flaengaredd.**

# 1. Y DATGANIAD CWRICWLWM

**Disgrifir cyd-destun y polisi y mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn gweithredu ynddo yn y dogfennau a ganlyn:**

- Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Llywodraeth y DU - Gwell Iechyd Gwell Cymru, 1998;
- Llywodraeth y DU – Deddf Dysgu a Sgiliau 2000;
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru, 2000;
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith Partneriaeth (dogfen ymgynghori), 2000;
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Cynllun i Gymru (cynllun strategol), 2001;
- Llywodraeth Cynulliad Cymru - Y Wlad Sy'n Dysgu, 2001;
- Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol/Adran Addysg a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cynulliad Cymru - Y Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i Gymru, 2001;
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Ymestyn Hawliau: cefnogaeth i rai 11 i 25 oed yng Nghymru (Canllawiau a Chyfarwyddyd), 2002;
- Llywodraeth Cynulliad Cymru - Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog, 2003;
- Llywodraeth Cynulliad Cymru – Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau, 2004;
- Llywodraeth y DU - Deddf Plant 2004;
- Llywodraeth Cynulliad Cymru - Addysg dros Ddatblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang - Strategaeth Gweithredu (dogfen wybodaeth), 2006;
- Llywodraeth Cynulliad Cymru – Y Wlad Sy'n Dysgu: Gweithredu'r Weledigaeth, 2006.

# 2. CYD-DESTUN Y POLISI

Addysgiadol

Mynegiannol

Cyfranogol

Grymusol

Y DATGANIAD CWRICWLWM **GWAITH IEUENCTID** AR GYFER **CYMRU**

Darperir gwaith ieuenctid gan y gwasanaeth ieuenctid statudol a gwirfoddol yng Nghymru trwy berthynas wirfoddol rhwng pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid. Mae gweithwyr ieuenctid yn gweithio yn eu mudiadau a'u cymunedau eu hunain ac mewn partneriaeth ag eraill.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid, fel hawl gyffredinol, yn agored i bob person ifanc o fewn yr ystod oedran benodedig 11-25.

Pennir mathau, cyfuniadau a blaenoriaethau gwaith ieuenctid ar lefel leol, genedlaethol a chyfundrefnol.

Dylai darpariaeth briodol gael ei phenderfynu gan anghenion, dymuniadau, diddordebau a dyheadau pobl ifanc.

## Mae gwaith ieuenctid yn darparu neu'n hwyluso:

- lleoedd a pherthnasoedd lle y gall pobl eu mwynhau eu hunain, teimlo'n ddiogel, yn sicr ac yn werthfawr, dysgu bod yn fwy cyfrifol am eu bywydau, ac adnabod a gwrthsefyll y dylanwadau niweidiol a all gael effaith arnynt;
- rhaglenni addysgol heb fod yn ffurfiol, anffurfiol a strwythuredig sy'n herio'r sefydliadau a'r bobl ifanc eu hunain er mwyn gwella eu datblygiad personol, cymdeithasol a gwleidyddol;
- mynediad i wybodaeth, cyngor, cyfarwyddyd a chwnsela perthnasol sy'n cynnwys deall cyfrifoldebau a hawliau.

# 3. DARPARIAETH GWAITH IEUENCTID YNG NGHYMRU

**Darperir gwaith ieuenctid trwy'r sectorau gwirfoddol a statudol. Gall gynnwys, er enghraifft:**

- gwaith mewn canolfannau;
- gwaith datgysylltiedig, estyn allan a symudol;
- arbenigeddau cwricwlaidd megis celf a diwylliant, cymorth cyntaf, chwaraeon, ayyb;
- gwasanaethau gwybodaeth, cyngor, cyfarwyddyd a chwnsela;
- gwaith prosiect;
- gwaith preswyl;
- darpariaeth wedi'i hanelu at grwpiau penodol;
- gwaith gydag unigolion;
- gwaith mewn partneriaeth;
- mecanweithiau i gynnwys pobl ifanc mewn prosesau penderfynu;
- cyfleoedd i wirfoddoli.

## Dibenion gwaith ieuenctid yng Nghymru yw:

- hybu a hyrwyddo cyfleoedd i bob person ifanc fel y gallant gyflawni eu potensial fel unigolion grymus ac fel aelodau o grwpiau a chymunedau;
- cefnogi pobl ifanc trwy newidiadau arwyddocaol yn eu bywydau a'u cynorthwyo i ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau;
- annog pobl ifanc i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, agweddau meddwl a gwerthoedd sy'n eu galluogi i wneud defnydd adeiladol o'u sgiliau, eu hadnoddau a'u hamser.

Gyrrir Gwaith Ieuenctid gan yr egwyddor wirfoddol sy'n cydnabod bod gan bobl ifanc yr hawl i ddewis a ydynt am gymryd rhan mewn darpariaeth gwaith ieuenctid.

## Dylai Gwaith Ieuenctid trwy ei arfer

- hybu cyfleoedd a mynediad i bob person ifanc ni waeth am eu hil, rhyw, hunaniaeth rywiol, iaith, crefydd, anabledd, hoedran, cefndir neu amgylchiadau personol;
- herio gormes ac anghydraddoldeb;
- cydnabod pwysigrwydd a gwerth yr iaith Gymraeg a'r angen i hybu'r defnydd a wneir ohoni;
- cydnabod bod Cymru'n wlad ag amrywiaeth o ieithoedd a diwylliannau;
- cydnabod pwysigrwydd datblygu cynaliadwy;
- cydnabod bod dinasyddiaeth yn cwmpasu cyfrifoldebau a hawliau fel dinasyddion byd-eang yn ogystal â rhai lleol a chenedlaethol.

# 4. DIBENION AC EGWYDDORION GWAITH IEUENCTID

## Pedair Colofn y Datganiad Cwricwlwm

Mae Gwaith Ieuenctid, trwy ei berthynas wirfoddol â phobl ifanc, yn cynnig cyfleoedd cynhwysol i ddysgu sydd fel a ganlyn:

### ADDYSGIADOL

Galluogi pobl ifanc i ennill y sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth, agweddau meddwl a gwerthoedd angenrheidiol i adnabod, hybu a mynnu eu hawliau a'u cyfrifoldebau fel unigolion ac fel aelodau o grwpiau a chymunedau, ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol.

### MYNEGIANNOL

Annog a galluogi pobl ifanc i fynegi eu teimladau a'u dyheadau trwy gyfleoedd creadigol, chwaraeon a phrofiadau heriol sy'n codi eu hymwybyddiaeth o'r canlynol:

- hunaniaeth ddiwylliannol;
- dwyieithrwydd a gwerth eu hiaith eu hunain;
- treftadaeth;
- parch tuag at amrywiaeth;
- dinasyddiaeth a pharch tuag at eraill.

# 4. DIBENION AC EGWYDDORION GWAITH IEUENCTID

## Pedair Colofn y Datganiad Cwricwlwm

Mae Gwaith Ieuenctid, trwy ei berthynas wirfoddol â phobl ifanc, yn cynnig cyfleoedd cynhwysol i ddysgu sydd fel a ganlyn:

### CYFRANOGOL

Lle mae pobl ifanc yn cael eu hannog i rannu cyfrifoldeb ac i ddod yn bartneriaid cydradd, sy'n sylfaenol i'r prosesau dysgu a'r strwythurau penderfynu sy'n effeithio ar eu bywydau a'u hamgylcheddau eu hunain ac eraill.

### GRYMUSOL

Annog a galluogi pobl ifanc i ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau fel eu bod yn ddinasyddion cyfrifol yn eu cymunedau ac yn gallu ymwneud â'r materion personol, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n effeithio ar eu bywydau eu hunain ac eraill.

Disgwylir i bawb sy'n darparu gwaith ieuenctid sefydlu dulliau i gynllunio, monitro a gwerthuso eu darpariaeth a datblygiad a chynnydd y bobl ifanc y maent yn gweithio â nhw. Dylai darparwyr yn y Gwasanaeth Ieuenctid adnabod arfer da a'i rannu wrth wynebu anawsterau ar yr un pryd â chynnig cymorth a hyfforddiant priodol lle bo angen.

Gall y Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru fod yn sylfaen ar gyfer meini prawf y cytunwyd arnynt i archwilio'r Gwasanaeth Ieuenctid, yn fewnol ac yn allanol, er mwyn adnabod canlyniadau penodol darpariaeth gwaith ieuenctid. Dylid pennu meini prawf o'r fath ar bob lefel yng nghyd-destun y ddarpariaeth.

Wrth asesu canlyniadau dylai fod gan ddarparwyr systemau sefydlog i gynllunio, monitro a gwerthuso pob darn o waith ieuenctid a ddarperir a dylid gallu adnabod y buddiannau posibl i bobl ifanc.

Dylai darparwyr gymryd i ystyriaeth Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cynulliad Cenedlaethol Cymru a fframwaith Estyn ar gyfer arolygu gwasanaethau i bobl ifanc.

# 5. MESUR CYNNYDD AC ASESU CANLYNIADAU

Ysgrifenwyd a chymeradwywyd y Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru yn 1992 a chafodd ei adolygu a'i ddiweddaru yn 2001 a 2006-07.

Rheolwyd adolygiad 2006-07 gan y Gynhadledd Sefydlog ar Waith Ieuenctid yng Nghymru. Cynhwysai gweithgor yr adolygiad aelodau o'r mudiadau a ganlyn:

- Y Gynhadledd Sefydlog
- Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS)
- Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid
- Grŵp Safonau Addysg a Hyfforddiant (ETS)
- Yr Asiantaethau Hyfforddi Gwaith Ieuenctid a Chymuned
- Estyn

# 6. ESBLYGIAD Y DATGANIAD CWRICWLWM GWAITH IEUENCTID AR GYFER CYMRU

Roedd y broses adolygu yn un gyfranogol. Yn unol â'r arfer gynt, ymgynghorwyd yn helaeth. Cyflwynwyd sylwadau gan unigolion, grwpiau a mudiadau i weithgor yr adolygiad i'w hystyried. Gwahoddwyd rhai a oedd â diddordeb yn y broses i wneud sylwadau trwy lythyru uniongyrchol a thrwy wefan Ymestyn Hawliau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Caiff y Datganiad Cwricwlwm ei ddiweddaru fel y bo'n briodol ac fe'i hadolygir gan y Gwasanaeth Ieuenctid bob pum mlynedd.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn gyffredinol gan y Gwasanaethau Ieuenctid yng Nghymru.